Adroddiad ar

Cylch Meithrin Carreg Hirfaen

Ysgol Carreg Hirfaen
Cwmann
Sir Gaerfyrddin
SA48 8ET

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Carreg Hirfaen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Carreg Hirfaen CIO |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Fiona Davies a Siwan Davies |
| Person â gofal | Wendy Evans |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.30yb – 12.00yp Dydd Llun – Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/02/2025 |
| Mae'r Cylch Meithrin ar safle ysgol. Mae 23 o blant yn mynychu'r lleoliad gydag ychydig yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Ehangu ar y cyfleoedd i blant chwarae a dysgu yn fwy annibynnol.

A2. Datblygu defnydd ymarferwyr o gwestiynau pen agored er mwyn ymestyn medrau meddwl y plant.

A3. Defnyddio arsylwadau yn fwy pwrpasol er mwyn cynllunio'r camau nesaf ar gyfer pob plentyn.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus a chartrefol, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau ac ymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu gyda'i gilydd. Maent yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau yn gyson, ac yn helpu eu hunain i adnoddau yn hyderus gan wybod bod ganddynt y rhyddid i wneud hynny. Mae gan blant lais i fynegi eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, wrth iddynt feddwl am syniadau, maent yn gofyn am adnoddau fel glud a sticeri. Mae llawer o blant yn gyfforddus i holi neu i ofyn am gefnogaeth, cynnig sylwadau a mynegi eu barn. Er enghraifft, maent yn mwynhau'r cwrs rhwystrau yn yr ardal allanol, a thu mewn mae llawer yn chwarae ar y cyd gyda byrddau golau ac adnoddau byd bach. Maent yn gyfforddus ac yn hyderus i ofyn am gymorth, er enghraifft wrth iddynt wisgo ffedog, agor potiau paent neu ddefnyddio'r ffynnon ddŵr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn frwdfrydig ac yn setlo'n gyflym. Maent yn gyfarwydd â threfn y bore ac yn mynd ati'n  fedrus i gyflawni tasgau annibynnol fel hongian eu cotiau a'u bagiau a hunangofrestru cyn mynd ati i chwarae'n hapus. Maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr pan mae angen ac yn dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Mae bron bob plentyn yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn hapus. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hamgylchedd a'u ffrindiau. Er enghraifft, yn ystod amser snac, mae'r plant yn hoffi cyfri'r unigolion o amgylch bob bwrdd, gan sicrhau bod digon o grempog i bawb. Mae mwyafrif y plant yn gyfforddus gydag ymwelwyr ac yn eu cynnwys yn eu chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio, arsylwi a chymryd rhan yn eu chwarae. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gydweithio a chymryd tro. Er enghraifft, maent yn arbrofi gyda thoes ac yn sgwrsio'n frwdfrydig am ei arogl ceirios wrth gydweithio i wneud cacennau. Mae plant yn mwynhau chwarae rôl wrth baratoi brecwast i ymwelwyr, ac wrth gydweithio i ddefnyddio'r glorian fawr a helpu ei gilydd gyda'r bwcedi trwm.

Mae bron bob un plentyn yn egnïol, yn frwdfrydig ac yn mwynhau wrth gymryd rhan. Maent yn weithgar yn eu chwarae ac yn elwa'n fawr yn ystod eu sesiynau rhydd i archwilio, arbrofi a darganfod heb fod o dan bwysau amser. Er enghraifft, wrth ddarganfod darnau rhydd, a heb ymyrraeth oedolion, maent yn cydweithio i greu pitsa a'i addurno â cherrig, gan ddisgrifio'r tomato, letys a chaws. Mae ychydig o blant yn hyderus i gynnig cefnogaeth i eraill, megis dangos eu medrau wrth greu siapiau lliwgar ar fwrdd mawr digidol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth fynd i’r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo heb gymorth, a bwyta eu snac gan gynnwys arllwys eu diodydd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau’n effeithiol wrth chwarae a dysgu. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau’n astud ac yn ymateb yn bositif i oedolion. Maent yn dod i adnabod gweithdrefnau’r lleoliad yn llwyddiannus, er enghraifft, wrth fynd ati’n ddiwyd i helpu yn ystod amser tacluso. Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llafar. Maent yn cynyddu eu geirfa yn gyson gan ei defnyddio’n gywir mewn cyd-destunau perthnasol, er enghraifft wrth gymryd archebion ar gyfer y caffi yn y gornel chware. Mae llawer o blant yn mwynhau canu ac yn ymuno yn egnïol yn ystod y sesiynau. Maent yn canu caneuon a rhigymau sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a’u datblygiad llafar. Er hyn, ychydig o blant sy’n siarad Cymraeg yn ddigymell. Mae mwyafrif y plant yn dechrau defnyddio arwyddion syml i gyfathrebu wrth ymateb i ymarferydd yn arwyddo â nhw. Mae bron bob plentyn yn mynegi eu teimladau a’u hemosiynau yn glir ac yn hyderus i ymarferwyr. Mae ychydig o blant yn adnabod eu lliwiau yn dda ac yn datgan hyn ar lafar yn glir, er enghraifft wrth ddisgrifio siapiau 2D ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol. Maent yn dewis llyfrau o’u gwirfodd o’r gornel ddarllen gan drafod y cynnwys gydag ymarferwyr. Maent yn mwynhau dilyn stori ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau am y cymeriadau. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol yn unol â’u cam datblygiad. Maent yn dechrau creu marciau yn llwyddiannus gan ddechrau sylweddoli bod gan ysgrifen bwrpas wrth gyfathrebu gyda darllenydd.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol gywir, er enghraifft wrth gyfri anifeiliaid y fferm. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth fathemategol yn effeithiol wrth chwarae yn yr ardaloedd gwahanol gan drafod patrymau syml a gwrthrychau sy’n fwy ac yn llai na’i gilydd. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n effeithiol. Maent yn ymdrin â gwrthrychau mân yn fedrus, er enghraifft wrth drin peli o glai gan eu rholio, eu tylino a’u siapio’n ofalus. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol mawr yn addas pan gânt y cyfle, drwy gydbwyso a theithio ar hyd planciau o bren wedi eu gosod fel llwybr.

Mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus ac yn deall bod offer digidol yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd. Maent yn defnyddio eu dwylo i greu darluniadau ar fwrdd rhyngweithiol mawr, ac yn defnyddio camerâu digidol yn hyderus. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus, er enghraifft wrth greu cerdyn gwellhad buan. Maent yn defnyddio glud gwlyb yn ofalus ac yn tywallt gliter gyda

rheolaeth fanwl. Mae llawer o blant yn cydweithio'n  dda â'i gilydd ac yn datblygu medrau datrys problemau. Er enghraifft, maent yn ystyried sut i arllwys tywod drwy droellwyr yn y twba tywod gan benderfynu ar yr offer mwyaf addas. Mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu heriau ac yn dal ati i geisio gwblhau tasg.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant, wedi cwblhau hyfforddiant priodol, ac yn arddangos dealltwriaeth gadarn o'r polisi. Maent wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn cael eu dilyn yn ystod cyfnodau snac ac yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cadw cofnodion cywir. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ganddynt rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol. Mae gan ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac mae ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr berthynas garedig a chynnes â'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn modelu rhyngweithiadau naturiol a chadarnhaol yn gyson, ac yn addysgu plant i fod yn ystyriol, i rannu, a chymryd tro. Er enghraifft, pan mae plant yn gofyn am gymorth, mae ymarferwyr wrth law i gamu i mewn a chynnig cefnogaeth, pan fo angen. Mae ymarferwyr yn sgwrsio'n gyson â'r plant, gan gynnig canmoliaeth a'u hannog i geisio rhoi cynnig ar y gweithgareddau. Yn yr un modd, maent yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r plant yn ystod cyfnodau snac, a'u hatgoffa i fod yn garedig. Mae hyn yn hyrwyddo medrau cymdeithasol y plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n barhaus i ddatblygu profiadau amrywiol er mwyn cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Maent yn dechrau bob thema trwy sgwrsio gyda'r plant, a'u hannog i gynnig syniadau. Maent yn defnyddio diddordebau'r plant wrth fynd ati i ddarparu cyfleoedd pwrpasol ar eu cyfer.

Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn cefnogi datblygiad iaith y plant yn effeithiol yn ystod eu gweithgareddau chwarae a dysgu. At ei gilydd, maent yn darparu modelau iaith effeithiol sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y plant ac yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith wrth chwarae.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb a bodloni anghenion bron bob plentyn. Maent yn ystyried barn a diddordebau'r plant o ddifri ac yn creu ffocws wythnosol sy'n canolbwyntio ar syniadau'r plant yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol i gynllunio profiadau ar gyfer y plant. Maent yn ymwybodol o agweddau pwysig o addysgeg ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd maent yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda i gynllunio profiadau diddorol i'r plant.

Mae gan yr holl ymarferwyr berthynas hyfryd â'r plant. Mae'r plant yn mwynhau rhyngweithio â'r ymarferwyr yn gyson ac mae'r ymarferwyr yn cymell y plant i ddatblygu ystod eang o fedrau yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu yn hynod effeithiol wrth sicrhau cyfleoedd pwrpasol i blant ddewis eu trywyddau dysgu eu hunain. Maent yn hyrwyddo chwarae'r plant yn effeithiol gan ddarparu cyfleoedd iddynt fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd. O ganlyniad, mae llawer yn dechrau datblygu'n archwilwyr hyderus ac yn ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad i ymarferwyr or-lywio'r gweithgareddau, sy'n cyfyngu ar annibyniaeth y plant, ar adegau.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi ardaloedd deniadol ac ysgogol oddi fewn a thu allan i'r lleoliad. Mae cyfleoedd eang i blant ddatblygu eu medrau'n barhaus. Maent yn darparu cornel ddarllen sy'n dathlu llyfrau ac sy'n groesawgar a chartrefol er mwyn denu plant i eistedd a datblygu eu medrau darllen cynnar gyda mwynhad. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau digidol ar draws yr ardaloedd sy'n galluogi'r plant i'w defnyddio'n hyderus a phwrpasol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau ar gyfer creu gwaith celf ar gael. Mae llawer o blant yn eu defnyddio i ymarfer creu marciau, i baentio neu greu collage syml. Mae'r ymarferwyr yn dathlu ymdrechion y plant i greu celf, gan arddangos eu gwaith yn amlwg ar hyd y lleoliad. Maent yn sicrhau bod adnoddau i hybu medrau modur mân y plant yn hygyrch iddynt, er enghraifft gydag offer i dylino, torri a rolio clai yn sbardun i greu cacennau ar gyfer y caffi. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau corfforol mawr y plant yn yr ardal allanol yn fwy cyfyngedig. Mae'r ymarferwyr yn cymhwyso dealltwriaeth y plant o iaith fathemategol yn effeithiol. Maent yn trafod cysyniadau fel mawr a bach neu hir a byr wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant, er enghraifft wrth greu clustdlysau allan o glai. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol gan ofyn cwestiynau agored iddynt sy'n datblygu eu medrau meddwl a dyfnhau eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, fel arfer, mae'r holi'n dueddol o fod yn arwynebol a chaeedig, gan gyfyngu ar gyfleoedd i'r plant feddwl yn ofalus am eu hatebion.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r ardal o amgylch y lleoliad yn effeithiol i sicrhau bod y plant yn sylwi ac yn rhyfeddu ar fyd natur. Mae ymarferwyr yn trefnu teithiau diddorol i'r plant

yn dymhorol, fel eu hymweliad â’r ardd fotaneg neu fferm pwmpenni. Mae hyn yn cryfhau ymwybyddiaeth y plant o’u hardal leol ac yn cyfoethogi eu gwaith yn ôl yn y lleoliad.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn ymdrin ag unrhyw anghytuno yn sensitif a phrydlon gan addysgu’r plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd parchu eraill. Maent yn hybu rheolau syml fel cymryd tro a rhannu yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb ac mae’r plant yn ymateb yn arbennig o dda pan fo angen tacluso neu baratoi ar gyfer mynd allan. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda gan godi ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau arwyddocaol, megis Diwrnod Miwsig Cymru. Maent yn darparu cyfleoedd addas i blant ddysgu am brif ddathliadau diwylliannau eraill drwy ddathlu eu diwrnodau pwysig a sicrhau bod adnoddau fel teganau a llyfrau perthnasol ar gael i blant.

Mae ymarferwyr yn cadw nodiadau defnyddiol am gynnydd plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth yn ddigon pwrpasol i gynllunio’r camau nesaf yn natblygiad plant unigol.

### Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ac mae ganddynt drefniadau cadarn er mwyn sicrhau bod mynediad diogel i’r safle. Mae ganddynt weithdrefnau clir sy’n sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi’n brydlon ac mae arweinwyr yn cadw’r holl gofnodion sy’n ymwneud â’r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle. Mae cofnodion cynnal a chadw’r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu’r amgylchedd fel yr offer diffodd tân, offer trydanol a chymorth cyntaf yn cael eu gwasanaethu’n rheolaidd. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol. Mae rhain yn cael eu hadolygu a’u defnyddio mewn modd prydlon ac effeithiol. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae ganddynt fwrdd gwybodaeth sy’n arddangos polisïau, tystysgrifau a gweithdrefnau diogelu priodol, a chedwir dogfennau cyfrinachol dan glo ar y safle.

Mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd hunangynhwysol o ansawdd da sy’n groesawgar a chynnes. Maent yn sicrhau diogelwch, preifatrwydd a lle ar gyfer nifer y plant sy’n mynychu’n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas a chyfleusterau newid cewynnau pwrpasol. Yn ogystal â safle’r lleoliad mewnol, maent yn gwneud defnydd effeithiol o amgylchedd yr ysgol a’i chyfleusterau. Yn y brif ystafell, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynnig ardaloedd dysgu ysgogol a diddorol sydd wedi eu paratoi a’u gosod yn hygyrch er mwyn gwahodd y plant i ddarganfod, archwilio a dysgu. At ei gilydd, maent yn cynnig rhyddid i blant symud yn annibynnol o amgylch eu hamgylchedd yn ôl eu

diddordebau. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi buddsoddi'n sylweddol yn narpariaeth yr ardal allanol sydd yn gaeedig a diogel.

Mae gan blant fynediad rhwydd i adnoddau eang o safon dda, sy'n eu galluogi i ddewis a dilyn eu diddordebau. Tu fewn, mae plant yn cael cyfleoedd helaeth i ddatblygu eu medrau, drwy gyffwrdd, archwilio a darganfod. Yn yr un modd, ceir cyfleoedd buddiol i blant ddefnyddio adnoddau go iawn gan ddatblygu eu dychymyg, eu hyder a'u medrau cymdeithasol. Mae'r amgylchedd yn cael ei chyfoethogi ymhellach drwy ddefnydd adnoddau fel lampau a phlanhigion sy'n ychwanegu at naws hamddenol y lleoliad. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn effeithiol trwy gynnig adnoddau iddynt ddysgu am eu cymuned, am amrywiaeth ac am wahanol ddiwylliannau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei chyfleu'n amlwg yn y datganiad o ddiben. Maent yn angerddol am greu awyrgylch groesawgar a chartrefol ble gall blant ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus mewn amgylchedd gefnogol a chynnes. Maent yn gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda chefnogaeth driw'r ymarferwyr. Maent yn ymroddgar iawn i'w gwaith, ac mae'r tîm cyfan yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant yn eu gofal. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae gan yr arweinwyr berthynas weithio gref â'r pwyllgor newydd. Maent yn rhannu gwybodaeth am gynnydd y lleoliad gyda nhw'n effeithiol ac mae'r pwyllgor yn gefnogol iawn i'r ymarferwyr wrth fynd ati i gynllunio gwelliant. Er hyn, nid yw'r person â gofal bob amser yn rhan o benderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â'r cylch, fel penodi ymarferwyr newydd. Golyga hyn nad yw arbenigedd y person â gofal bob amser yn rhan o gynllunio hir dymor y Cylch. Mae arweinwyr yn ymwybodol o gryfderau'r lleoliad ac agweddau y gellir eu cryfhau. Maent yn casglu arian yn rheolaidd ac yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol gan roi'r plant yn gyntaf wrth wneud penderfyniadau. Mae'r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Maent yn gweithredu prosesau hunanwerthuso trylwyr ac effeithiol. Maent yn ystyried barn rhieni, swyddogion addysg yr awdurdod lleol a phartneriaid ehangach. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn er mwyn ymateb i'w blaenoriaethau a datblygu'r gwasanaeth.

Mae arweinwyr yn llunio polisïau priodol, sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Maent yn dilyn polisïau recriwtio diogel a chadarn ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant.

Mae arweinwyr yn creu cysylltiadau buddiol ag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Maent yn mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol, gan atgyfeirio'n bwrpasol at yr asiantaethau cywir er mwyn cynorthwyo unigolion. Mae gan y lleoliad bartneriaeth agos iawn â'r ysgol y mae wedi ei leoli ynddi. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o dir yr ysgol. Maent yn cynnal trefniadau pontio llwyddiannus, gan wahodd athrawes y dosbarth derbyn i'r Cylch yn rheolaidd a thrwy ddarparu cyfleoedd i'r plant ymweld â'r dosbarth Derbyn yn yr wythnosau cyn trosglwyddo. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'r berthynas aeddfed sydd ganddynt â swyddog addysg yr awdurdod lleol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ystyried datblygiad y ddarpariaeth a'r effaith ar gynnydd y plant, yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae ganddynt berthynas waith ymarferol â swyddogion y mudiad ymbarél sy'n cydweithio â nhw. Mae hyn yn sicrhau amrediad o bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant buddiol sy'n cynnal y ddarpariaeth yn effeithiol. Mae gan yr arweinydd ac ymarferwyr berthynas agos a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Maent ar gael ar ddechrau a diwedd bob dydd wrth i rieni gasglu eu plant, ac yn trefnu cyfleoedd buddiol i'r rhieni ymweld â'r Cylch. Maent yn cyfathrebu'n gyson â nhw er mwyn trafod lles a chynnydd eu plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod camau cadarn yn cael eu gweithredu ar gyfer rheoli staff. Mae blaenoriaethau datblygiad arweinwyr yn cydblethu'n effeithiol ag anghenion datblygiad y lleoliad. Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar, yn synhwyrol i flaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2025